**PWYLLGOR RHANBARTH Y GOGLEDD**

**COFNODION**

**Dyddiad:** Dydd Gwener, 4 Gorffennaf 2003

**Amser:** 10.00am tan 13.00pm

**Lleoliad:** Neuadd William Aston, Athrofa Gogledd-ddwyrain Cymru, Wrecsam

**Yn Bresennol:**

**Aelodau:**

| | |
|---|---|
| **Janet Ryder, Cadeirydd** | **Gogledd Cymru** |
| **Eleanor Burnham** | **Gogledd Cymru** |
| **Mark Isherwood** | **Gogledd Cymru** |
| **Alun Ffred Jones** | **Caernarfon** |
| **Ieuan Wyn Jones** | **Ynys Môn** |
| **John Marek** | **Wrecsam** |
| **Alun Pugh** | **Gorllewin Clwyd** |
| **Karen Sinclair** | **De Clwyd** |

**Cyflwynwyr:**

| | |
|---|---|
| **Steve Moore** | **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** |
| **Martin Terry** | **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru** |
| **Bob Daimond** | **Cyngor Gwynedd** |
| **Katie Trent** | **Cylch** |
| **Chris Pilsbury** | **Trefnu Cymunedol Cymru** |
| **Mike Harrison** | **Trefnu Cymunedol Cymru** |
| **Marlene Griffiths** | **Trefnu Cymunedol Cymru** |
| **John Gilbert** | **Trefnu Cymunedol Cymru** |

**Yr Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| **Siwan Davies** | **Clerc y Pwyllgor** |
| **Vaughan Watkin** | **Dirprwy Glerc y Pwyllgor** |
| **Silvia Ricondo** | **Gweinyddwr y Pwyllgor** |

**Eitem 1: Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer 2003-04**

**1.1 Etholwyd Janet Ryder yn Gadeirydd ar y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.**

**Eitem 2: Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**2.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor, y bobl a oedd yn bresennol ac aelodau'r cyhoedd i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor yn ystod yr ail Gynulliad. Ar ôl cael ymateb am waith y Pwyllgor yn ystod y Cynulliad cyntaf, byddai cyfarfodydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar annog y cyhoedd i gymryd rhan ynddynt. Byddai adroddiadau byr sy'n crynhoi trafodion y pwyllgor yn cael eu cyflwyno i'r Gweinidogion perthnasol ac i bwyllgorau'r Cynulliad.**

**2.2 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Denise Idris-Jones, Ann Jones, Sandy Mewies, Carl Sargeant, Dafydd Elis-Thomas a Brynle Williams.**

**Eitem 3: Rheoli Gwastraff yn y Gogledd**

**3.1 Eglurodd y Cadeirydd mai diben yr eitem oedd gofyn barn y cyhoedd am faterion yn ymwneud â datblygu dulliau mwy cynaliadwy o reoli gwastraff yn y Gogledd.**

**3.2 Cafwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr y cyrff canlynol, ac ar ôl hynny, cafwyd cwestiynau a sylwadau gan y cyhoedd:**

- **Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru - a fu'n amlinellu'r drefn o ran ymdrin â gwastraff a'r prif waith a wneir gan yr Asiantaeth i hybu'r gwaith o reoli gwastraff mewn ffordd gynaliadwy;**
- **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - rhai o'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â chyrraedd targedau;**
- **Cylch - enghreifftiau o arferion da yn y rhanbarth;**
- **Trefnu Cymunedol Cymru - rhai o'r pryderon sydd gan bobl y rhanbarth ac awgrym ar gyfer ffordd ymlaen.**

**3.3 Ceir crynodeb o'r trafodion yn yr adroddiad amgaeedig, a gaiff ei gyflwyno i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Chadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.**

**Eitem 4: Gwaith y Pwyllgor yn y Dyfodol**

**4.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i awgrymu pynciau i'w trafod mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**

**4.2 Awgrymodd Aelodau'r Pwyllgor y pynciau canlynol:**

- **Cyllido addysg, yn benodol ELWa a chyllido addysg drydyddol;**

**- Cynaliadwyedd cymunedau gwledig; yn benodol ymchwiliad Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i dai fforddiadwy a chymunedau cynaliadwy;**

**- Datblygu economaidd a chymorth i fusnesau, yn benodol, mentrau bach a chanolig;**

**- Chwaraeon yn y gymuned;**

**- Cyfleusterau gofal plant;**

**- Trafnidiaeth, yn benodol trafnidiaeth gyhoeddus a gwaith cynnal a chadw'r ffyrdd.**

**4.3 Awgrymodd aelodau'r cyhoedd y pynciau canlynol:**

**- Masnachu Teg a tegwch cymdeithasol;**

**- Caffael cynnyrch yn y sector cyhoeddus, a hynny o ffynonellau moesegol sy'n parchu'r amgylchedd;**

**- Trafnidiaeth, yn benodol mewn ardaloedd gwledig, a chludiant i'r ysgol;**

**- Anghenion y sector gwirfoddol;**

**- Ysgolion cynradd bach a'u rôl mewn cymunedau lleol.**

**4.4 Byddai rhaglen waith ar gyfer gweddill y flwyddyn yn cael ei hystyried yn ystod y cyfarfod nesaf yn nhymor yr hydref.**

**4.5 Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn cyfarfod fin nos, ac roedd anghytundeb barn ynghylch a oedd hyn yn well na chyfarfod yn ystod y bore. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried cynnal rhai o'i gyfarfodydd fin nos.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

**5.1 Byddai'r Cynulliad yn cytuno ar ddyddiadau cyfarfodydd nesaf y pwyllgor cyn bo hir. Gellid neilltuo seddau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol drwy gysylltu â'r llinell archebu ar 029 2089 8477.**

**5.2 Yn ddiweddar, roedd Gwasanaeth Gwybodaeth i'r Cyhoedd y Cynulliad wedi penodi dau aelod o staff i weithio yn y Gogledd. Cyflwynodd y Cadeirydd Bethan Jones ac Iwan Williams, sy'n gweithio yn Uned 21, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, LL17 0LJ a gellid cysylltu â hwy ar 01745 585464 a 07815 585301.**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau**

**Gorffennaf 2003**